Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025

**Dyddiad:** 23 Hydref 2024
**Cyfeirnod:** Medr/2024/04

**At:** **Gyrff llywodraethu a phenaethiaid sefydliadau a reoleiddir a/neu a gyllidir darparwyr addysg uwch yng Nghymru**

**Cyrff cynrychioli myfyrwyr yng Nghymru**

**Ymateb erbyn:** 29 Tachwedd 2024 i Ipsos trwy allrwyd yr NSS

**Mwy o wybodaeth:**

Taz Jones | YmgysylltuDysgwr@medr.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) 2025 a'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr holl brifysgolion, colegau a darparwyr addysg uwch eraill sy'n cyfranogi erbyn **29 Tachwedd 2024**.

Gofynnir i ddarparwyr wneud y canlynol:

- darparu'r manylion cyswllt diweddaraf
- cwblhau'r ffurflen 'fy opsiynau arolwg'
- cyflwyno templedi sampl NSS 2025 gyda manylion cyswllt myfyrwyr cymwys

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn darparu trosolwg o'r modd y gweinyddir yr arolwg, manylion cyswllt ar gyfer cymorth i ddarparwyr, amserlen yr arolwg a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r canlyniadau.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) 2025 a'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr holl brifysgolion, colegau a darparwyr addysg uwch eraill sy'n cyfranogi erbyn **29 Tachwedd 2024**. Gofynnir i ddarparwyr wneud y canlynol:

   - darparu'r manylion cyswllt diweddaraf
   - cwblhau'r ffurflen 'fy opsiynau arolwg'
   - cyflwyno templedi sampl NSS 2025 gyda manylion cyswllt myfyrwyr cymwys.

   Sylwer nad yw'n ofynnol i'r chwe darparwr yng Nghymru sy'n danysgrifwyr newydd i HESA, sydd â darpariaeth cyrsiau addysg uwch a ddynodwyd yn benodol ac sy'n cyflwyno data ar gyfer y cofnod myfyrwyr am y tro cyntaf yn 2023/24, gyfranogi yn NSS 2025. Byddwn yn cysylltu â'r chwe darparwr hyn ynghylch rhoi'r NSS ar waith iddynt hwy yn y dyfodol.

2. Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn darparu trosolwg o'r modd y gweinyddir yr arolwg, manylion cyswllt ar gyfer cymorth i ddarparwyr, amserlen yr arolwg a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r canlyniadau.

## Cefndir

3. Arolwg ledled y DU a wneir gan fyfyrwyr addysg uwch israddedig ar eu blwyddyn olaf i roi adborth ar eu cwrs yw'r NSS. Fe'i rheolir gan y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS) ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU – Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon), Cyngor Cyllido'r Alban a Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru). Mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth ar gyfer darpar fyfyrwyr i'w helpu i ddod o hyd i'r cwrs iawn iddynt hwy. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer sefydliadau, rhanddeiliaid a llunwyr polisïau.

4. Bydd yr arolwg yn cael ei gyflawni ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU gan:

   - Ipsos, a fydd yn gweinyddu'r arolwg.
   - CACI, a fydd yn darparu'r porth lledaenu data ar gyfer darparwyr.

5. Mae'r arolwg yn elfen allweddol o'r dirwedd sicrhau ansawdd a rheoleiddio ehangach mewn addysg uwch yn y DU. Mae cyfranogiad yn orfodol i ddarparwyr addysg uwch fel a ganlyn:

   - Yng Nghymru, disgwylir i ddarparwyr a reoleiddir neu a gyllidir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch gyfranogi yn yr NSS i sicrhau bod barn eu poblogaethau myfyrwyr amrywiol yn cael ei chynrychioli, yn unol â'u dyletswyddau i hybu cyfle cyfartal, dileu camwahaniaethu, meithrin cysylltiadau da a hybu cydraddoldeb. Bydd deilliannau'r NSS yn darparu gwybodaeth ar gyfer Medr, rheoleiddiwr addysg drydyddol yng Nghymru.
   - Yn Lloegr, bydd disgwyl i'r holl ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr ac a reoleiddir ganddi gyfranogi yn yr NSS fel un o amodau parhaus eu cofrestriad.

- Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfranogi yn yr NSS yn un o'r amodau cyllido fel a nodir yn y memoranda ariannol rhwng prifysgolion ac Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon). Mae colegau addysg bellach yng Ngogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn yr NSS i ateb gofynion sicrhau ansawdd.
- Yn yr Alban, mae cyfranogi'n un o amodau'r cyllid gan Gyngor Cyllido'r Alban ar gyfer darparwyr addysg uwch.

6. Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr wedi cadarnhau nad yw'n ofynnol i ddarparwyr yn Lloegr hyrwyddo arolwg 2025 i'w myfyrwyr. **Mae'n dal yn ofynnol i ddarparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hyrwyddo'r arolwg.** Rydym yn disgwyl i ddarparwyr adolygu unrhyw ymgyrchoedd mewnol, i sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau ynghylch marchnata a hyrwyddo'r NSS ac osgoi dylanwad amhriodol (gweler canllaw arfer da 2025).

7. Yn ystod gwaith maes yr arolwg bydd ymatebion yn cael eu monitro, a bydd camau dilynol wedi'u targedu'n cael eu cymryd i sicrhau y cyrhaeddir trothwyon cyhoeddi. Yn gynnar ym mis Mawrth, yn ogystal â'r camau dilynol wedi'u targedu, bydd yr holl ddarparwyr sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd y trothwy cyhoeddi'n cael eu rhoi i mewn i'r cam hybu i anfon negeseuon e-bost atgoffa ychwanegol a neges SMS ychwanegol at eu myfyrwyr sydd heb ymateb. Bydd y cam hybu'n dechrau'n awtomatig os yw cyfradd ymateb darparwr yn is na 43 y cant erbyn canol mis Mawrth, a bydd yn parhau i rai tan ganol mis Ebrill. Mae amserlen y gwaith maes wedi'i nodi yng nghanllaw sefydlu Ipsos i ddarparwyr sydd ar gael ar allrwyd NSS Ipsos.

**Arolwg 2025**

8. Ar gyfer 2025, bydd holiadur yr NSS yr un fath ag NSS 2024. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y cwestiwn am ryddid mynegiant yn cael ei ofyn i fyfyrwyr sy'n astudio yn Lloegr yn unig a bydd y cwestiwn am fodlonrwydd ar y cyfan yn cael ei ofyn i fyfyrwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unig.

9. Mae'r rhestr lawn o gwestiynau a graddfeydd ymateb NSS 2025 i'w chael ar wefan y Swyddfa Fyfyrwyr.

10. Bydd y cwestiynau yn y banciau dewisol a'u graddfeydd ymateb yn aros yr un fath yn 2025 gan ddefnyddio graddfa ymateb Likert.

11. Ipsos sy'n gweinyddu'r arolwg ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU. Mae'n gyfrifol am gysylltu â myfyrwyr, hyrwyddo'r arolwg a darparu data wedi'i lanhau i gyrff cyllido a rheoleiddio'r DU.

12. Fel rhan o'i rôl, bydd Ipsos yn cysylltu'n uniongyrchol â darparwyr ynghylch gweinyddu'r arolwg a bydd yn rhoi cymorth i redeg yr arolwg trwy:
    - gynnig arweiniad ar fanylion penodol rhaglen yr arolwg, megis yr wythnos y mae'n dechrau, dethol cwestiynau dewisol a chwestiynau darparwr-benodol
    - ar gyfer darparwyr sy'n hyrwyddo'r arolwg:

- darparu deunyddiau marchnata wedi'u brandio yn null yr NSS a chynghori darparwyr ynghylch cynhyrchu eu deunyddiau eu hunain.
- hwyluso cynlluniau cymhelliant darparwyr i annog myfyrwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.

13. Bydd rhagor o wybodaeth am farchnata a hyrwyddo'r arolwg yn cael ei darparu yn y canllaw arfer da gan Ipsos ar 23 Hydref 2024.

14. Bydd darparwyr yn cael eu gwahodd i ddewis un o bum wythnos pan all Ipsos lansio'r arolwg ar gyfer eu myfyrwyr. Ni fydd unrhyw gyfathrebu gan Ipsos gyda myfyrwyr y tu allan i'r amseroedd y cytunwyd arnynt gyda darparwyr unigol.

15. Bydd amserlen yr arolwg fel a ganlyn:
    i. Bydd yr NSS yn lansio ar **8 Ionawr 2025**;
    ii. Bydd gwaith maes yn digwydd rhwng **9 Ionawr a 30 Ebrill 2025** ac yn cael ei redeg gan Ipsos;
    iii. Bydd cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn rhyddhau cyhoeddiad yng **ngwanwyn 2025** a fydd yn manylu ar y cynlluniau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau NSS 2025;
    iv. Cyhoeddir dyddiad dros dro ar gyfer cyhoeddi canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ar wefan y Swyddfa Fyfyrwyr ar **9 Gorffennaf 2025 am 09:30yb**;
    v. Bydd canlyniadau manwl yn cael cyflenwi i ddarparwyr unigol trwy borth lledaenu newydd a ddarperir gan CACI Limited ar y un dyddiad ac amser;
    vi. Bydd canlyniadau'r NSS ar lefel cyrsiau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan Darganfod Prifysgol.

16. Mae Ipsos wedi cyhoeddi dogfen ganllaw gynhwysfawr, 'Sefydlu a pharatoi ar gyfer Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025', ar gyfer yr holl ddarparwyr sy'n cyfranogi ar 23 Hydref 2024. Dylid darllen y ddogfen ganllaw ar y cyd â'r cyhoeddiad hwn.

17. Ar gyfer NSS 2025, bydd CACI Limited yn darparu canlyniadau'r arolwg ar borth lledaenu data a ddatblygwyd o'r newydd ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU. Mae'r porth canlyniadau'n galluogi darparwyr i gael mynediad at elfennau ychwanegol, heb eu cyhoeddi o'u data, gan gynnwys sylwadau testun agored, data o'r banc ychwanegol o gwestiynau a'r cwestiynau darparwr-benodol, a data islaw'r trothwy cyhoeddi.

18. Bydd porth lledaenu data newydd yr NSS yn lansio ym mis Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, bydd Texuna Technologies yn parhau i ddarparu desg wasanaeth wedi'i neilltuo i'r NSS i roi cymorth i ddarparwyr gael mynediad at eu data ac i ymateb i ymholiadau tra bo'r porth newydd yn cael ei ddatblygu.Bydd canllawiau i ddarparwyr am lawrlwytho data hanesyddol o borth lledaenu data'r NSS presennol yn dilyn maes o law.

19. Ar gyfer NSS 2025, bydd CACI Limited yn darpaur canlyniadau'r arolwg ar y porth lledaenu data sydd newydd ei datblygu ar ran o chyrff cyllido a rheoleiddio'r DU. Wrth baratoi ar gyfer lledaenu canlyniadau'r NSS, bydd CACI Limited yn cysylltu â

darparwyr yng ngwanwyn 2025 i gadarnhau manylion mewngofnodi defnyddwyr a chadarnhau manylion cyhoeddi canlyniadau NSS 2025 ar y porth.

### Y wefan Darganfod Prifysgol

20. Adnodd ar gyfer darpar fyfyrwyr israddedig sy'n chwilio am wybodaeth am gyrsiau israddedig yn y DU yw Darganfod Prifysgol. Fe'i rheolir gan y Swyddfa Fyfyrwyr ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU. Cyhoeddir deilliannau'r NSS ar y wefan Darganfod Prifysgol yn flynyddol. Y trothwy cyhoeddi cyfredol ar gyfer canlyniadau'r NSS yw cyfradd ymateb o 50 y cant a bod o leiaf 10 o fyfyrwyr wedi ymateb.

21. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys data a gymerwyd o arolwg Hynt Graddedigion HESA, a datganiad Darganfod Prifysgol HESA (a adwaenid yn flaenorol fel y datganiad Unistats), sy'n casglu data am gyrsiau. Darperir rhagor o wybodaeth am ddatganiad Darganfod Prifysgol HESA isod.

### Ffurflen Darganfod Prifysgol HESA 2024

22. Mae'r holl ddarparwyr yng Nghymru sy'n tanysgrifio i HESA yn cyflwyno datganiad data i HESA i'w gwneud yn bosibl cynnwys data am eu cyrsiau ar y wefan Darganfod Prifysgol. Mae'n ofynnol i'r holl ddarparwyr a reoleiddir neu a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr ar gyfer darpariaeth AU a darparwyr â darpariaeth cyrsiau AU a ddynodwyd yn benodol yng Nghymru gyflwyno'r wybodaeth hon i HESA ar gyfer eu darpariaeth.

### Camau gweithredu ar gyfer darparwyr

23. Dylai'r holl sefydiladau addysg uwch a cholegau addysg bellach yng Nghymru a reoleiddir a/neu a gyllidir ar gyfer darpariaeth addysg uwch:

    a. perthnasol ar gyfer yr NSS erbyn **29 Tachwedd 2024**. Dylid darparu'r wybodaeth gan ddefnyddio'r ffurflen 'Fy manylion' ar allrwyd yr NSS. Anfonodd Ipsos fanylion mewngofnodi ar gyfer allrwyd yr NSS at brif ac ail gyswllt enwebedig darparwyr ar gyfer yr NSS yn yr wythnos a ddechreuodd ar 30 Medi 2024.

    b. cyflwyno eu ffurflen 'Fy opsiynau arolwg' wedi'i chwblhau erbyn **29 Tachwedd 2024** trwy allrwyd yr NSS. Mae'r ffurflen hon yn gofyn am ddewisiadau darparwyr o ran yr wythnos yr hoffent i'w harolwg ddechrau, cwestiynau dewisol a manylion unrhyw rafflau i ennill gwobrau.

    c. poblogi eu templedi sampl ar gyfer NSS 2025 â'r manylion cyswllt y gofynnir amdanynt ar gyfer yr holl fyfyrwyr ar eu rhestr darged; rhestr o'r holl fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer NSS 2025 yw hon, yn seiliedig ar y data myfyrwyr a gyflwynwyd i gofnod myfyrwyr HESA 2023/24. Dylid darparu manylion erbyn **29 Tachwedd 2024** trwy'r adran 'Lanlwytho data'r sampl' ar allrwyd yr NSS. Dylai unrhyw weithred arfaethedig i ychwanegu myfyrwyr at y rhestr darged neu dynnu myfyrwyr oddi arni ddilyn y broses a nodwyd gan Ipsos.

24. Mae cyfarwyddiadau ynghylch sut i ddarparu'r wybodaeth hon wedi cael eu cynnwys yng nghanllaw sefydlu NSS 2025, a fydd yn cael ei anfon at gysylltiadau darparwyr gan Ipsos ar **23 Hydref 2024** ac maent hefyd ar gael ar allrwyd yr NSS. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth ynghylch gweinyddu'r arolwg, a chyfrifoldebau a dyddiadau allweddol.

25. Atgoffir yr holl ddarparwyr i sicrhau bod cyrsiau wedi'u mapio'n gywir i'r Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH). Dylai darparwyr ystyried y broses fapio canlyniadol i'r cod CAH3 o ran yr wybodaeth y gall darpar fyfyrwyr gael mynediad ati i oleuo penderfyniadau ynglŷn ag astudio addysg uwch. Gall meysydd pwnc megis Nyrsio, Economeg a Chyllid fod yn feysydd y dylai darparwyr eu hadolygu i gadarnhau eu bod wedi'u codio yn y pwnc CAH3 priodol.

26. Mae canllawiau manwl sy'n ymwneud ag NSS 2025 a'r camau gweithredu y gofynnir i sefyliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach yng Nghymru sy'n dychwelyd data myfyrwyr at HESA ac yn cyfranogi yn yr NSS eu cymryd i'w cael yn **Atodiad A**.

27. Darperir crynodeb o'r camau gweithredu y mae'n ofynnol i ddarparwyr sy'n cyfranogi eu cymryd yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Camau gweithredu gan ddarparwyr a cherrig milltir allweddol**

| Dyddiad | Camau gweithredu |
|---|---|
| 23 Hydref 2024 | Ipsos i anfon canllaw sefydlu a chanllaw arfer da NSS 2025 at ddarparwyr. |
| 29 Tachwedd 2024 | Adolygu a diweddaru manylion cyswllt ar gyfer yr NSS. |
| 29 Tachwedd 2024 | Cwblhau'r ffurflen 'fy opsiynau arolwg'. |
| 29 Tachwedd 2024 | Cyflwyno templedi sampl NSS 2025 gyda manylion cyswllt myfyrwyr cymwys. |
| 9 Gorffennaf 2025 | Dyddiad dros dro ar gyfer cyhoeddi canlyniadau NSS 2025 ar wefan OfS ac ar gyfer lledaenu canlyniadau manwl i ddarparwyr unigol trwy borth lledaenu data'r NSS. |

### Dylanwad amhriodol ar yr arolwg

28. I gynnal cyfanrwydd data'r NSS, mae'n bwysig sicrhau na ddylanwadwyd ar fyfyrwyr sy'n cwblhau'r arolwg gan eu darparwr, nac unrhyw bartïon eraill, i ymateb mewn ffordd nad yw'n adlewyrchu eu gwir farn. Y Swyddfa Fyfyrwyr sy'n gyfrifol am reoli'r broses, ar ran holl gyrff cyllido a rheoleiddio'r DU, i ymdrin ag unrhyw bryderon y dylanwadwyd yn amhriodol ar fyfyrwyr wrth iddynt gwblhau'r NSS.

29. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i honiadau o ddylanwad amhriodol ar ganlyniadau'r arolwg wedi'u bwriadu i gael eu darllen ar y cyd â'r canllaw arfer da a gyhoeddir gan Ipsos, sy'n egluro'r hyn sy'n gyfystyr â dylanwad amhriodol a sut i'w

osgoi wrth annog myfyrwyr i gyfranogi. Rydym yn erfyn ar ddarparwyr i sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am weithrediad yr arolwg yn gyfarwydd â chanllaw arfer da Ipsos, ac yn ceisio cyngor lle y bo angen gan Ipsos neu'r Swyddfa Fyfyrwyr ynghylch eu dull o osgoi dylanwad amhriodol. Bydd cynrychiolydd o Medr yn rhan o unrhyw adolygiad o bryder ynghylch dylanwad amhriodol sy'n ymwneud â darparwr addysg uwch yng Nghymru.

30. Mae canllaw i fyfyrwyr ynghylch dylanwad amhriodol ar gael i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o werth eu barn onest, beth i'w ddisgwyl o weithgarwch i hyrwyddo'r NSS, yr hyn a ganiateir ac nas caniateir, a ble y dylent fynd i gael cymorth a chefnogaeth os ydynt yn pryderu y bydd eraill yn dylanwadu arnynt. Gofynnir i ddarparwyr hysbysu myfyrwyr ynghylch y canllaw hwn fel rhan o'u cynlluniau ar gyfer y cyfnod cyn lansio'r arolwg. Darperir rhagor o fanylion am hyn yng nghanllaw sefydlu NSS 2025 a gyhoeddwyd gan Ipsos.

## Costau

31. Bydd Medr yn talu costau NSS 2025 ar gyfer darparwyr addysg uwch y mae'n eu rheoleiddio ac yn eu cyllido.

## Rhagor o wybodaeth

32. Mae mynd ati'n weithredol i gefnogi darparwyr sy'n cyfranogi yn dyngedfennol i sicrhau bod data'r arolwg o ansawdd da. Rydym yn annog yr holl ddarparwyr ac undebau myfyrwyr i fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael ac i gysylltu os oes arnynt angen cymorth ychwanegol:

| | |
|---|---|
| Ipsos:<br>nns@ipsos.com | Gweithrediad yr arolwg, gan gynnwys: paratoi ar gyfer yr arolwg a'i farchnata; rhestrau targed myfyrwyr; cwestiynau dewisol; cynlluniau cymhelliant. |
| Texuna Technologies:<br>nss@texunatech.com | Canlyniadau manwl darparwyr ar borth lledaenu data'r NSS tan 3 Ionawr 2025, gyda CACI Limited yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ymholiadau wedi hynny.<br>Bydd yr wybodaeth gyswllt ar gyfer CACI Limited yn cael ei rhannu gyda darparwyr maes o law. |
| Y Swyddfa Fyfyrwyr<br>nssallegations@officeforstudents.org.uk | Meysydd megis polisi a datblygiad yr NSS; defnydd pellach o ganlyniadau; honiadau o ddylanwad amhriodol. |
| Medr<br>YmgysylltuDysgwr@medr.cymru \| LearnerEngagement@medr.cymru | Unrhyw ymholiadau eraill sy'n ymwneud â gweithrediad yr NSS yng Nghymru. |

**Asesu effaith ein polisïau**

33. Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effeithiau. Fel partneriaid yn yr arolwg a reolir gan y Swyddfa Fyfyrwyr, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr i sicrhau bod yr arolwg a'r deunyddiau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer myfyrwyr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru. Byddwn yn parhau i asesu effaith yr NSS ar y Gymraeg i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cyfranogi'n llawn yn yr NSS yn eu dewis iaith.

## Canllawiau ynghylch NSS 2025 ar gyfer sefydliadau addysg uwch, ac ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru sy'n dychwelyd data myfyrwyr at HESA

1. Bydd yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) yn cael ei gynnal yn 2025 ar draws darparwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban gan y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS), a fydd yn gweithio ar ran cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU.

2. Bydd yr amserlen ar gyfer NSS 2025 fel a ganlyn:
    a. Bydd yr NSS yn lansio ar **8 Ionawr 2025**.
    b. Bydd gwaith maes yn digwydd rhwng **9 Ionawr a 30 Ebrill 2025**.
    c. Bydd cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn rhyddhau cyhoeddiad yng **ngwanwyn 2025** a fydd yn manylu ar y cynlluniau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau NSS 2025.
    d. Dyddiad dros dro ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r NSS 2025 ar wefan OfS yw **09 Gorffennaf 2025.**
    e. Am 09:30 bydd canlyniadau manwl yn cael eu dosbarthu i ddarparwyr unigol drwy'r porth lledaenu NSS newydd a ddarperir gan CACI Limited ar yr un dyddiad ac amser. Mae cyhoeddiad canlyniadau NSS 2025 yn amodol ar benderfyniadau a chytundeb terfynol gan gyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn dilyn yr adolygiad ansawdd o'r data.
    f. Bydd canlyniadau'r NSS ar lefel cyrsiau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan Darganfod Prifysgol.

3. Mae'r atodiad hwn yn darparu canllawiau yn benodol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU ac ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru sy'n dychwelyd data myfyrwyr at yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac a gyllidir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch.

4. Mae cyfrifoldebau darparwyr er mwyn rheoli'r NSS yn llwyddiannus fel a ganlyn:
    a. Cyflwyno cofnod Myfyrwyr HESA mewn modd amserol. Y dyddiad cyflwyno terfynol yw 25 Hydref 2024 ar gyfer cofnod Myfyrwyr C23056 gydag 1 Tachwedd wedi'i bennu fel dyddiad cymeradwyo.
    b. Sicrhau bod y data o ansawdd da trwy wirio adroddiad yr NSS (y rhestr darged) a gynhyrchwyd gan HESA. Gall ceisiadau am unrhyw newidiadau angenrheidiol na ellir eu datrys trwy gywiro'r data myfyrwyr gael eu cyfeirio at Ipsos, i gael eu cymeradwyo gan y corff cyllido perthnasol.
    c. Anfon e-bost rhaghysbysu ynghylch yr NSS at fyfyrwyr cymwys. Ceir rhagor o fanylion yng nghanllawiau sefydlu NSS 2025, a anfonwyd at gysylltiadau darparwyr gan Ipsos. Mae'r ddogfen ganllaw ar gael ar allrwyd yr NSS hefyd.
    d. Cyflwyno manylion cyswllt myfyrwyr (cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn) mewn modd amserol pan ofynnir gan Ipsos (erbyn **29 Tachwedd 2024**).

e. Ymgysylltu â'r holl ganllawiau a cheisiadau a anfonir gan y Swyddfa Fyfyrwyr, cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU, HESA, Ipsos a CACI Limited, a mynychu hyfforddiant a digwyddiadau a gynhelir ganddynt fel y bo angen.

f. Cyflwyno dewisiadau'r arolwg i Ipsos erbyn **29 Tachwedd 2024**. Mae hyn yn cynnwys amseriad yr arolwg a'r dewis o gwestiynau mewn banciau dewisol. Dylid gwneud dewisiadau o ran y banciau dewisol ar y cyd â'r undeb myfyrwyr perthnasol.

g. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr yn Lloegr hyrwyddo'r arolwg i fyfyrwyr ond gallant wneud hynny os ydynt yn dymuno; mae hyn yn dilyn yr un broses ag yn NSS 2024. Mae'n ofynnol i ddarparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hyrwyddo'r arolwg. Rhaid i ddarparwyr sy'n hyrwyddo'r arolwg i'w myfyrwyr sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r canllawiau ynghylch marchnata a hyrwyddo'r 'arolwg ac ynghylch osgoi dylanwad amhriodol'. Darperir canllawiau ar hyn gan Ipsos yn y canllaw arfer da ac sydd ar gael ar fewnrwyd yr NSS.

5. Gall darparwyr gyrchu eu rhestrau targed ar gyfer NSS 2025 trwy system casglu data myfyrwyr HESA. Dylent ddarparu'r manylion cyswllt y gofynnwyd amdanynt ar gyfer myfyrwyr ar y rhestrau hyn i Ipsos erbyn **29 Tachwedd 2024**. Ceir rhagor o fanylion yng nghanllaw sefydlu NSS 2025 i ddarparwyr, a anfonwyd at gysylltiadau gan Ipsos. Mae'r ddogfen ganllaw hefyd ar gael ar allrwyd NSS Ipsos.

6. Os yw'r darparwr yn teimlo nad yw'r boblogaeth darged yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r myfyrwyr sydd ym mlwyddyn olaf cyrsiau cymwys ar hyn o bryd, yna dylai ymgysylltu â'r broses ar gyfer ychwanegu myfyrwyr at y boblogaeth darged a thynnu myfyrwyr allan ohoni a amlinellir ym mharagraffau 14-16. Rhaid i unrhyw geisiadau o'r fath i ychwanegu myfyrwyr at y boblogaeth darged neu dynnu myfyrwyr allan ohoni gael eu cyflwyno i Ipsos a'u cytuno gan y corff cyllido perthnasol cyn bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn y rhestr darged derfynol neu'n cael eu tynnu oddi arni. Os cymeradwyir y cais, bydd y Swyddfa Fyfyrwyr yn hysbysu'r darparwr ac yn gwneud y newid i'r rhestr darged.

7. Gall myfyrwyr cymwys optio allan o'r arolwg ar unrhyw adeg yn ystod y broses gwaith maes.

8. Gall darparwyr ddewis hyd at chwe banc o gwestiynau dewisol a gallant gynnwys hyd at ddau gwestiwn ychwanegol sy'n berthnasol yn benodol i'r darparwr. Gofynnir i ddarparwyr gytuno ag undebau myfyrwyr ar eu dewis o fanciau dewisol o gwestiynau i'w cynnwys. Dylai darparwyr gyflwyno eu dewis o fanciau dewisol a chwestiynau ychwanegol i Ipsos.

9. Ar gyfer NSS 2025, yn ogystal â gwaith dilynol wedi'i dargedu, bydd yr holl ddarparwyr sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd y trothwy cyhoeddi'n cael eu rhoi'n awtomatig yn y cam hybu i anfon negeseuon atgoffa ychwanegol at eu myfyrwyr nad ydynt wedi ymateb. Gweithgaredd hyrwyddo ychwanegol yw hwn i annog myfyrwyr i gwblhau'r arolwg. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r cam hybu.

10. Gall darparwyr gael mynediad at eu hymatebion manwl a chanlyniadau'r arolwg trwy borth lledaenu'r NSS a ddarperir gan CACI Limited, o wefan y Swyddfa Fyfyrwyr, ac o'r wefan Darganfod Prifysgol (ar gyfer myfyrwyr).

**Cwmpas a sylw'r arolwg**

11. Cwmpesir y darparwyr canlynol gan NSS 2025:

a. Yng Nghymru, disgwylir i ddarparwyr a reoleiddir neu a gyllidir gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch gyfranogi yn yr NSS i sicrhau bod barn eu poblogaethau myfyrwyr amrywiol yn cael ei chynrychioli, yn unol â'u dyletswyddau i hybu cyfle cyfartal, dileu camwahaniaethu, meithrin cysylltiadau da a hybu cydraddoldeb. Bydd deilliannau'r NSS yn darparu gwybodaeth ar gyfer Medr, y rheoleiddiwr ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

b. Yn Lloegr, bydd disgwyl i'r holl ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr ac a reoleiddir ganddi gyfranogi yn yr NSS fel un o amodau parhaus eu cofrestriad.

c. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfranogi yn yr NSS yn un o'r amodau cyllido fel a nodir yn y memoranda ariannol rhwng prifysgolion ac Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon). Mae colegau addysg bellach yng Ngogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn yr NSS i ateb gofynion sicrhau ansawdd.

d. Yn yr Alban, mae cyfranogi'n un o amodau'r cyllid gan Gyngor Cyllido'r Alban ar gyfer darparwyr addysg uwch.

12. Mae'r holl fyfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser sydd wedi'u cofrestru mewn darparwyr sy'n cyfranogi yn gymwys i wneud yr NSS yn ystod eu blwyddyn astudio olaf (neu, ar gyfer rhaglenni hyblyg lle na ellir rhagweld y flwyddyn olaf, ar ôl bod disgwyl iddynt fod wedi gwneud mwy na blwyddyn o astudio cyfwerth ag amser llawn ac nid cyn eu trydedd flwyddyn o astudio), gyda'r eithriadau canlynol:

a. myfyrwyr ar raglenni nad ydynt yn arwain at gymwysterau na chredydau israddedig

b. myfyrwyr ar gwrs sy'n para blwyddyn neu sy'n cynnwys un flwyddyn o astudio cyfwerth ag amser llawn, neu lai

c. unrhyw fyfyrwyr a arolygwyd yn NSS 2024 (pa un a wnaethant ymateb ai peidio) ac sy'n dal i fod yn yr un darparwr

d. unrhyw fyfyrwyr yr ydym yn disgwyl, erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2024-25, y byddant wedi cwblhau un flwyddyn o astudio cyfwerth ag amser llawn neu lai ers iddynt gael eu harolygu ddiwethaf.

13. Cynhwysir myfyrwyr ym mhoblogaeth arolwg 2025 os disgwylir iddynt gwblhau eu cwrs rhwng 1 Chwefror 2025 a 31 Ionawr 2026 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

14. Mae'n bosibl ychwanegu myfyrwyr at restr darged yr NSS neu eu tynnu oddi arni os yw darparwr yn teimlo nad yw'r boblogaeth darged yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r myfyrwyr sydd ym mlwyddyn olaf cyrsiau cymwys ar hyn o bryd (er enghraifft os yw hyd cwrs myfyriwr wedi lleihau ar ôl i ddarparwr gyflwyno'i ddatganiad Myfyrwyr HESA). Mae'r meini prawf llawn yng nghanllawiau sefydlu NSS 2025 a ddarparwyd gan Ipsos.

15. Bydd darparwyr yn gallu gwneud ceisiadau i ychwanegu myfyrwyr at boblogaeth yr NSS neu eu tynnu allan ohoni unwaith y mae'r rhestr darged wedi cael ei phennu'n derfynol gan y Swyddfa Fyfyrwyr. Bydd y broses o ychwanegu myfyrwyr at y boblogaeth a'u tynnu allan ohoni'n dechrau oddeutu wythnos wedi i'r Swyddfa Fyfyrwyr gael y data terfynol ar fyfyrwyr. Bydd darparwyr yn cael eu hysbysu cyn bod y broses yn agor. Ni fydd ceisiadau'n cael eu derbyn ar ôl 1 Mawrth 2025.

16. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl i sicrhau y gellir eu prosesu cyn, neu'n gynnar yn ystod, cyfnod yr arolwg. Rhaid i'r holl geisiadau gael eu gwneud trwy [allrwyd yr NSS](#) a dylid eu gwneud mewn un ffeil, gan gynnwys y lefel ofynnol o fanylder. Bydd y Swyddfa Fyfyrwyr neu gorff cyllido perthnasol yn adolygu'r holl geisiadau am ychwanegu myfyrwyr at restrau a'u tynnu oddi arnynt a gall ofyn am ragor o fanylion gan ddarparwyr lle y bo angen. Bydd cyflwyno ceisiadau mor gynnar â phosibl ac ymateb i ymholiadau mewn modd amserol yn helpu i gyflymu'r broses. Gall fod angen i'r Swyddfa Fyfyrwyr flaenoriaethu cymeradwyaethau yn ôl yr wythnos y mae'r arolwg yn dechrau, ond byddwn yn ymdrechu i weithredu ar bob cais cyn dyddiad dechrau'r arolwg.

17. Ac eithrio myfyrwyr ar raddau cyntaf estynedig, nid yw myfyrwyr ôl-radd yn cael eu cynnwys yn yr NSS.

### Rhesymau dros eithrio unigolion o'r arolwg

18. Rydym yn galluogi darparwyr i eithrio grwpiau penodol o fyfyrwyr rhag cael cyswllt gan Ipsos. Y grwpiau hyn yw:
    a. Myfyrwyr ymadawedig.
    b. Myfyrwyr ag anawsterau iechyd difrifol (gan gynnwys anawsterau iechyd meddwl), sy'n golygu y gallai ceisio ymateb beri trallod iddynt.
    c. Myfyrwyr sydd, ar ôl cael eu hysbysu y bydd eu manylion cyswllt yn cael eu trosglwyddo i asiantaeth yr arolwg (Ipsos) at ddibenion yr NSS, yn datgan nad ydynt yn dymuno cael cyswllt (bydd myfyrwyr yn gallu optio allan yn ystod proses yr arolwg hefyd).

19. Bydd myfyrwyr yng ngrwpiau b ac c yn dal i allu cwblhau'r arolwg os ydynt yn dymuno, trwy [wefan yr arolwg](#).

20. Dyma'r unig seiliau y gellir eu defnyddio i eithrio myfyrwyr o'r boblogaeth darged. Dylai darparwyr godio'r myfyrwyr hyn ar y templedi sampl a gyflwynir ganddynt fel categori 'C', ac ni ddylai darparwyr ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y myfyrwyr hyn. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yng nghanllawiau sefydlu NSS 2025 a ddarparwyd gan Ipsos.

21. Os yw'r darparwr yn teimlo nad yw'r boblogaeth darged yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r myfyrwyr sydd ym mlwyddyn derfynol cyrsiau cymwys ar hyn o bryd, yna dylai ymgysylltu â'r broses ar gyfer ychwanegu myfyrwyr at y boblogaeth a'u tynnu allan ohoni fel a amlinellir ym mharagraffau 14 – 16. Y rhesymau dros wahaniaethau fel arfer fydd newidiadau yn amgylchiadau'r myfyriwr, megis cymryd blwyddyn allan neu ail-wneud blwyddyn.

22. Er y gall rhai myfyrwyr adael cyn pryd yn eu blwyddyn olaf, byddant wedi rhyngweithio ddigon â'r darparwr, felly mae eu barn yn werthfawr ac felly dylai'r myfyrwyr hyn ddal i gael eu cynnwys. Os yw myfyrwyr yn gadael cyn pryd heb ymgysylltu yn eu blwyddyn olaf, gall fod yn bosibl eu tynnu allan trwy'r broses ar gyfer ychwanegu myfyrwyr at y rhestr a thynnu myfyrwyr oddi arni.

23. Mewn rhai amgylchiadau, efallai mai'r rheswm dros newid yn y boblogaeth darged fydd gwall yn y data myfyrwyr a ddychwelwyd i gofnod Myfyrwyr HESA. Os digwydd hyn:

   a. Efallai yr hoffai darparwyr yn Lloegr adolygu'r data ar gyfer y myfyrwyr hyn ac ystyried a hoffent gyflwyno crynodeb o wallau yn y data i'r Swyddfa Fyfyrwyr ei ystyried. Ar ôl adolygu'r crynodeb hwn, os ydym ni'n credu bod y gwallau'n helaeth ac yn berthnasol, gallwn ei gwneud hi'n ofynnol i'r darparwr gyflwyno datganiad diwygiedig ar gyfer y cofnod Myfyrwyr i HESA.

   b. Ar gyfer darparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd manylion unrhyw wallau posibl yn y data'n cael eu rhannu gyda'r priod gyrff cyllido er mwyn iddynt ystyried unrhyw gamau gweithredu pellach.

24. Dylid nodi y gall HESA godi tâl i gwrdd â chostau prosesu newid o'r fath.

**Proses ar gyfer darparu data cyswllt myfyrwyr**

25. Yn dilyn cyflwyno'r cofnod Myfyrwyr i HESA, bydd rhestr darged o fyfyrwyr i'w cynnwys yn yr NSS yn cael ei chynhyrchu'n awtomatig. Wedyn dylai darparwyr sy'n cyfranogi yn NSS 2025 ddarparu manylion cyswllt (cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn), yn ôl y templed safonol a fydd yn cael ei ddarparu gan Ipsos, ar gyfer yr holl fyfyrwyr cymwys ar y rhestr.

26. Dylai myfyrwyr gael eu hysbysu gan y darparwr y gall eu manylion cyswllt gael eu trosglwyddo. Gall darparwyr wneud hyn trwy anfon e-bost i raghysbysu ynghylch yr NSS at yr holl fyfyrwyr sy'n gymwys i gymryd rhan yn yr NSS yn eu hysbysu y bydd Ipsos yn cysylltu â hwy. Darperir canllawiau a thempled ar gyfer e-bost yng nghanllawiau sefydlu NSS 2025 a anfonwyd at ddarparwyr gan Ipsos. Mae testun wedi cael ei ychwanegu at hysbysiad casglu data myfyrwyr HESA i egluro hyn hefyd.

27. Gall darparwyr ddiffinio eu strwythur eu hunain ar gyfer cael eu data NSS, trwy un o ddau faes dewisol ar ffeil y sampl i ddynodi'r 'cod adrannol' mewnol ar gyfer pob myfyriwr. Bydd y codau hyn, lle cânt eu darparu, yn cael eu defnyddio i ddarparu adborth ar gyfer y darparwr ac at y diben hwnnw yn unig.

28. Dylai darparwyr gyflwyno'r manylion cyswllt y gofynnwyd amdanynt ar gyfer myfyrwyr ar y rhestrau hyn i Ipsos erbyn **29 Tachwedd 2024**. Bydd Ipsos yn darparu canllawiau ar gyfer ei gysylltiadau ynghylch sut i ddarparu'r rhestrau hyn fel rhan o ddogfen ganllaw'r NSS. Mae'r NSS yn cyflawni cyfradd ymateb uchel, ac er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau mae'n bwysig bod darparwyr yn cyflwyno manylion cyswllt cyflawn a chywir i Ipsos erbyn y dyddiad hwn.

**Gweinyddu'r arolwg**

29. Bydd gwaith maes arolwg 2025 yn cael ei wneud rhwng 9 Ionawr a 30 Ebrill 2025 yn ystod tymor y gwanwyn a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Swyddfa Fyfyrwyr ar **9 Gorffennaf 2025**. I osgoi pryderon ynghylch yr effaith ar arolygon mewnol, bydd Ipsos yn parhau i:

- frandio'r NSS yn annibynnol, sy'n hynodi ei ddiben yn glir
- rheoli'r broses o ddosbarthu'r arolwg yn ganolog, fel nad yw darparwyr yn rhan o gysylltu â myfyrwyr i gwblhau'r NSS.

30. Bydd darparwyr yn cael eu gwahodd i ddewis un o bum wythnos pan all Ipsos lansio'r arolwg i'w myfyrwyr. Y rheswm dros hyn yw i sicrhau bod yr arolwg yn gallu dechrau ar adeg sy'n cyd-fynd ag amserlenni tymhorau ac nad yw'n gwrthdaro ag arholiadau. Gall darparwyr ddewis wythnos rhwng 6 Ionawr a 3 Chwefror 2025 i'r arolwg ddechrau. Ni fydd unrhyw gyfathrebu gyda myfyrwyr gan Ipsos y tu allan i'r amseroedd y cytunwyd arnynt gyda phob darparwr. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr yn gallu cael mynediad at yr arolwg trwy wefan yr arolwg o 8 Ionawr 2025 ymlaen.

31. Mae'n hanfodol bod yr holl ddarparwyr yn dechrau eu harolygon yn ystod y 'ffenestr ddechrau' o bum wythnos i sicrhau bod canlyniadau'n gallu cael eu cyhoeddi mewn pryd i ddarpar fyfyrwyr wneud dewisiadau gwybodus. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried ceisiadau unigol am ddyddiad dechrau y tu allan i'r ffenestr bum wythnos lle mae gweithgareddau myfyrwyr yn ei gwneud yn anymarferol cynnal yr arolwg yn ystod yr amser hwnnw. Dylai unrhyw ddarparwr sy'n dymuno cyfleu achos dros ddyddiad dechrau gwahanol ar gyfer yr arolwg gysylltu ag Ipsos erbyn **29 Tachwedd 2024.**

32. Bydd Ipsos yn cynnal yr arolwg ym mhob darparwr gan ddefnyddio trefn benodedig o arolygu trwy'r e-bost a thros y ffôn. Bydd hyn yn cymryd hyd at wyth wythnos ym mhob darparwr, er y gallai fod angen peth gwaith dilynol wedi'i dargedu yn ystod yr amser hwn a'r tu hwnt iddo i gynyddu cyfraddau ymateb. Bydd Ipsos yn defnyddio dulliau'r arolwg yn dactegol, i bersonoli'r arolwg i fyfyrwyr a darparwyr a helpu i gynyddu ymatebion ar-lein a lleihau costau'r arolwg.

**Hyrwyddo'r NSS**

33. Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr wedi cytuno nad yw'n ofynnol i ddarparwyr yn Lloegr hyrwyddo arolwg 2025 i'w myfyrwyr, ond y gallant wneud hynny os ydynt yn dymuno.

34. Mae'n ofynnol i ddarparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hyrwyddo'r arolwg, fel a gytunwyd gan y cyrff cyllido yn y gwledydd hyn.

35. Mae disgwyl i ddarparwyr sy'n hyrwyddo'r arolwg adolygu unrhyw ymgyrchoedd mewnol i sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau ynghylch marchnata a hyrwyddo'r NSS ac osgoi dylanwad amhriodol (gweler canllaw arfer da 2025).

36. Bydd y canllawiau arfer da ar gyfer NSS 2025 ar gael o allrwyd NSS Ipsos ac maent yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ynghylch hyrwyddo'r arolwg. Mae'n

bwysig bod darparwyr yn ymlynu wrth y canllawiau ynghylch osgoi dylanwad amhriodol ac yn codi unrhyw ymholiadau gydag Ipsos. Mae cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn trin unrhyw achosion o dorri'r canllawiau hyn fel mater difrifol a gallant ymchwilio a gweithredu lle ceir tystiolaeth eu bod wedi cael eu torri. Rydym yn cynnal adolygiad blynyddol i sicrhau bod y broses a fabwysiedir gennym i ymateb i honiadau'n addas ar gyfer y diben a gwneud unrhyw welliannau i'r broses a chanllawiau ar gyfer darparwyr a myfyrwyr cyn bod gwaith maes yn digwydd. Mae'r canllawiau hyn ynghylch y broses ar gyfer ymdrin â honiadau wedi'u bwriadu i gael eu darllen ar y cyd â'r canllawiau arfer da a gyhoeddir gan Ipsos. Hoffem erfyn ar ddarparwyr i sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am weithrediad yr arolwg yn gyfarwydd â chanllawiau Ipsos ac yn ceisio cyngor lle y bo angen ynghylch eu dull o osgoi dylanwad amhriodol.

37. Mae canllaw i fyfyrwyr ar ddylanwad amhriodol ar gael i helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o werth eu barn onest, beth i'w ddisgwyl o weithgarwch i hyrwyddo'r NSS, yr hyn a ganiateir ac nas caniateir, a ble y dylent fynd i gael cymorth a chefnogaeth os ydynt yn pryderu y bydd eraill yn dylanwadu arnynt. Gofynnir i ddarparwyr hysbysu myfyrwyr ynghylch y canllaw hwn fel rhan o'u cynlluniau ar gyfer y cyfnod cyn lansio'r arolwg. Darperir rhagor o fanylion am hyn yng nghanllaw sefydlu NSS 2025 a gyhoeddwyd gan Ipsos.

38. Bydd Ipsos yn cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a deunyddiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol am NSS 2025 i ddarparwyr ac undebau myfyrwyr eu defnyddio'n lleol. Bydd darparwyr yn gallu cael mynediad at y gyfres lawn o ddeunyddiau marchnata o allrwyd yr NSS. Os bydd darparwr neu undeb myfyrwyr yn dymuno defnyddio dull brandio'r NSS i ddatblygu ei ddeunydd marchnata ei hun, gall wneud hynny a dylai drafod hyn gydag Ipsos, a fydd yn cynghori ynghylch arfer da ac yn cynnig canllawiau i sicrhau lefel resymol o gysondeb ar draws y sector. Pan fydd yn cysylltu â darparwyr, bydd Ipsos yn trafod pwy yn y darparwr sydd yn y sefyllfa orau i gydlynu gweithgarwch hyrwyddo. Bydd rhagor o wybodaeth am ddeunyddiau marchnata a hyrwyddo'r arolwg yn cael ei darparu yng nghanllaw arfer da NSS 2025 gan Ipsos ar 23 Hydref 2024.

39. Bydd Ipsos yn rheoli cynlluniau cymhelliant y gall darparwyr gymryd rhan ynddynt. Mae'r rhain yn galluogi darparwyr i gynnig cymhellion i fyfyrwyr gwblhau'r NSS. Er enghraifft, mae rhai darparwyr wedi cynnig credydau argraffu i fyfyrwyr sy'n cwblhau'r arolwg ar-lein.

40. Bydd myfyrwyr ar raglenni hyblyg yn cael cyfathrebiadau wedi'u teilwra sy'n rhoi adlewyrchiad mwy cywir o'u cyfranogiad mewn addysg uwch.

### Dosbarthu'r holiadur

41. Ceir dau brif ddull o gasglu data: ar-lein a thros y ffôn. Mae Ipsos yn gweithredu gwefan fyw â mynediad agored, lle gall myfyrwyr fewngofnodi a chwblhau'r arolwg, yn ogystal â'r opsiwn i ymateb trwy ddilyn y ddolen mewn e-bost wedi'i bersonoli. Nod y wefan yw gwirio pwy yw myfyrwyr pan ydynt yn mewngofnodi; unwaith y mae myfyrwyr wedi cwblhau'r arolwg ac y mae eu hymateb wedi cael ei ddilysu, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y restr darged yn awtomatig ac ni fyddir yn cysylltu â hwy eto. I alluogi hyn, ac fel bod yr arolwg yn gweithio'n effeithiol yn fwy

cyffredinol, dylai darparwyr ymlynu wrth y terfyn amser ar gyfer darparu manylion cyswllt myfyrwyr.

42. Er bod dau ddull o gasglu data, rydym yn ymrwymedig i leihau'r cyswllt dros y ffôn. Fodd bynnag, mae ffonio'n dal i fod yn elfen hanfodol o'r arolwg a bydd yn parhau, felly mae disgwyl i bob darparwr ddarparu rhif ffôn symudol pob myfyriwr ac unrhyw rif cyswllt arall a ddelir.

43. Er mwyn monitro ymatebion a phrosesu data ar gyfer ei ddadansoddi ac adrodd arno, rydym yn cysylltu'r holl ymatebion â rhifau'r myfyrwyr yng nghofnodion Myfyrwyr HESA neu ddynodwyr myfyrwyr hysbys. Bydd gan gyfwelwyr dros y ffôn fynediad awtomatig at ddynodwyr. Unwaith y bydd myfyrwyr wedi cwblhau'r arolwg, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y restr darged ac ni fyddir yn cysylltu â hwy eto.

44. Trwy gydol y broses, bydd Ipsos yn anfon negeseuon atgoffa at fyfyrwyr nad ydynt wedi ymateb.

45. Bydd cyfraddau ymateb, yn ôl darparwr ac yn ôl maes pwnc, yn cael eu monitro'n barhaus yn ystod y broses. Yn ystod y cam arolygu dros y ffôn, bydd cyfraddau ymateb yn cael eu hadolygu a gellir adnabod rhai meysydd ar gyfer camau dilynol, ychwanegol, wedi'u targedu i godi ymatebion i lefel ddigonol i adrodd ar y canlyniadau. Bydd y gweithgarwch ychwanegol hwn yn cynnwys negeseuon atgoffa trwy'r e-bost a neges destun.

46. Ar gyfer NSS 2025, yn ogystal â gwaith dilynol wedi'i dargedu, bydd yr holl ddarparwyr sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd y trothwy cyhoeddi'n cael eu rhoi'n awtomatig i mewn i'r cam hybu i anfon negeseuon atgoffa ychwanegol at eu myfyrwyr sydd heb ymateb yn ystod gwaith maes yr arolwg. Bydd hyn yn cael ei gychwyn yn awtomatig os yw cyfradd ymateb darparwr yn is na 43 y cant erbyn canol mis Mawrth a bydd yn parhau ar gyfer rhai darparwyr tan ganol mis Ebrill. Bydd neges destun atgoffa ychwanegol yn cael ei chynnwys yn yr amserlen ar gyfer cysylltu â myfyrwyr sydd heb ymateb yn ystod y cam hybu.

47. Ar unrhyw adeg yn ystod proses yr arolwg, gall myfyrwyr optio allan o'r arolwg ac ni fyddir yn cysylltu â hwy eto. I wneud hyn, bydd angen i fyfyrwyr wirio pwy ydynt trwy ddarparu peth data, megis eu dyddiad geni.

48. Bydd cyfraddau ymateb darparwyr yn cael eu rhannu gan Ipsos yn ystod y gwaith maes i helpu darparwyr i fonitro eu cynnydd gyda'r arolwg. Ni ddylai darparwyr rannu'r data yma'n fwy eang, a darperir canllawiau ynghylch hyn yng nghanllaw arfer da NSS 2025 a anfonir at gysylltiadau darparwyr gan Ipsos. Ni fydd data ar gyfraddau ymateb cenedlaethol ar gael i ddarparwyr.

49. Ceidw cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yr hawl i gytuno ar newidiadau i gyfnod yr arolwg gyda darparwyr unigol sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd trothwyon cyhoeddi ar lefel darparwyr neu ar lefel pynciau. Bydd y Swyddfa Fyfyrwyr yn hysbysu darparwyr ynghylch unrhyw ddulliau a chamau gweithredu a allai fod yn angenrheidiol. Bydd cyflawnrwydd a chywirdeb data cyswllt myfyrwyr, a ddarperir gan ddarparwyr, yn ffactor arwyddocaol yn y gallu i gyrraedd lefel gyhoeddadwy o ymatebion.

**Cyhoeddi canlyniadau NSS 2025**

50. Un o brif ddibenion yr NSS yw darparu gwybodaeth i helpu myfyrwyr posibl a'r rhai sy'n eu cynghori i wneud dewisiadau ynglŷn ag addysg uwch. Mae ganddo hefyd rôl allweddol o ran gwella profiad myfyrwyr, trwy helpu darparwyr i adnabod meysydd ar gyfer gweithredu neu ddatblygu.

51. Y gyfradd gyhoeddi gyfredol ar gyfer canlyniadau'r NSS yw cyfradd ymateb o 50 y cant, gydag o leiaf 10 o fyfyrwyr yn ymateb. Bydd canlyniadau sy'n cyrraedd y trothwy a'r meini prawf cyhoeddi yn cael eu cyhoeddi ar y wefan Darganfod Prifysgol. Bydd data'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Fyfyrwyr hefyd.

52. Bydd data hefyd ar gael i ddarparwr ar borth lledaenu data'r NSS a ddarperir gan CACI Limited. Bydd y porth canlyniadau'n galluogi darparwyr i gael mynediad at elfennau o'u data, gan gynnwys cwestiynau yn y banciau dewisol, sylwadau testun agored myfyrwyr a data islaw rhai trothwyon cyhoeddi penodol.

53. Gall y Swyddfa Fyfyrwyr a chyrff cyllido a rheoleiddio'r DU gyhoeddi eu dadansoddiad hwy eu hunain o'r data, gan gynnwys sylwadau testun agored a banciau dewisol. Ar gyfer data nad yw ar gael yn gyhoeddus trwy wefan y Swyddfa Fyfyrwyr, data wedi'i gydgrynhoi fydd hwn ac ni fydd yn ei gwneud yn bosibl adnabod darparwyr, cyrsiau nac unigolion.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**